Beibl i Blant

yn cyflwyno

# Iesu'n gwella dyn dall



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest
addaswyd gan: Ruth Klassen
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2016 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Dyn dall oedd Bartimeus. Byddai'n eistedd ar ochr y ffordd wrth ymyl Jericho yn cardota. Byddai pobl garedig yn rhoi ychydig bach o arian neu damaid o fwyd iddo wrth iddyn nhw basio heibio. Doedd Bartimeus ddim yn gallu gweithio achos doedd e ddim yn gallu gweld.



Un diwrnod, roedd y ffordd fawr yn brysur.  Clywodd Bartimeus sŵn traed llawer o bobl.  Roedd rhywbeth anarferol yn digwydd.  Cyn hir, fe wnaeth y dyn dall ddeall beth oedd yn mynd ymlaen.  Roedd Iesu o Nasareth wedi dod i'r dref.  Daeth tyrfa o bobl i weld a gwrando ar Iesu.





"Iesu! Fab Dafydd! Helpa fi!" Pam fod Bartimeus yn gweiddi? Oedd e'n meddwl bod Iesu'n gallu ei helpu? Efallai ei fod wedi clywed bod Iesu wedi gwella pobl eraill – pobl yn methu clywed, methu siarad, methu cerdded – a rhai yn methu gweld. "Fab Dafydd, helpa fi," gweiddai Bartimeus drosodd a throsodd. Roedd ei lais yn llawn gobaith.



Roedd Bartimeus yn siŵr o un peth. Dyma ei gyfle i gael help. Efallai na fyddai'n cael cyfle i ddod yn agos at Iesu eto.



Roedd yn rhaid i Bartimeus fynd at Iesu. Ond doedd neb yn barod i symud. “Ssssshh!” medden nhw. Cafodd ei rybuddio i fod yn dawel.



Ond doedd Bartimeus ddim am fod yn ddistaw, daliodd ati i weiddi. Yna stopiodd Iesu yn sydyn! A gwrando! A dweud wrthyn nhw am ddod â'r dyn dall ato. "Cod dy galon! Mae'n galw amdanat ti. Tyrd!" meddai'r bobl wrth Bartimeus.



Taflodd Bartimeus ei glogyn i ffwrdd, neidiodd i fyny a mynd at Iesu.



“Beth ga i wneud i ti?” gofynnodd Iesu.  Beth fyddai eich ateb chi? Fyddech chi wedi gofyn am arian mawr neu ddillad newydd smart? Oedd Bartimeus eisiau hynny?



Na, doedd Bartimeus dall ddim am ofyn i Iesu am aur neu ddillad newydd.

Ydych chi'n gwybod am beth ofynnodd e?



"Dw i eisiau gweld." Roedd Bartimeus eisiau gweld! Gweld y coed a'r adar a byd hardd Duw. Roedd e eisiau gweld er mwyn gallu gweithio, a pheidio bod yn gardotyn.



Yna dywedodd Iesu wrth Bartimeus: "Dos, am i ti gredu rwyt wedi dy iacháu."



Yn sydyn roedd e’n gallu gweld, … a dilynodd Iesu ar hyd y ffordd. Roedd yn ail-adrodd y geiriau “Mae Duw yn rhyfeddol! Mae Duw wedi fy ngwella!” Roedd Bartimeus mor hapus.





Dechreuodd pawb foli Duw wrth weld hyn yn digwydd.  Unwaith eto, roedden nhw wedi gweld gallu mawr Iesu, Mab Duw, yn  gwella cardotyn tlawd, dall a'i helpu i weld eto.

Iesu'n gwella dyn dall

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Marc 10, Luc 18, Ioan 9

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol.
Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16